# Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien

Newyddlen

Tachwedd 2018

## Helo.....

Mae ein gwaith wedi bod yn carlamu ymlaen yng nghronfeydd dŵr Llanisien a Llys-faen dros yr hydref. Rydyn ni'n gweithio i adfer y cronfeydd i'w hen ogoniant, ac mae pethau'n mynd yn dda.

Yn y cylchlythyr hwn, mae rhagor o wybodaeth am y gwaith ac am beth sydd ar y gweill dros y misoedd nesaf. Gobeithio y bydd y wybodaeth o ddefnydd i chi.

## Cynllun i adlenwi'r gronfa

Rydyn ni'n cwblhau'r rhannau olaf o'r gwaith i drwsio basn cronfa Llanisien, ac yn bwriadu dechrau ei hadlenwi ar ddechrau'r flwyddyn newydd.

Mae'r broses adlenwi'n gallu cymryd hyd at ddwy fyned, dyna pam ein bod ni wedi gwneud y gwaith ar y basn yn gyntaf. Wrth i'r gronfa adlenwi, byddwn ni'n parhau â'n gwaith ar y tir.



Gosod pibellau newydd ar lan ddwyreiniol cronfa ddŵr Llanisien

## Gosod pibellau newydd

Rydyn ni'n gosod pibellau dŵr newydd ar hyd lan ddwyreiniol cronfa Llanisien, a fydd yn helpu i wella gwytnwch y cyflenwad dŵr ar gyfer ein cwsmeriaid yng Nghaerdydd am flynyddoedd i ddod.



Pibellau'n barod i'w gosod ar lan ddwyreiniol cronfa Llanisien

Mae'r gwaith yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl oherwydd cyflwr gwael yr hen bibellau, ond rydyn ni'n gobeithio ei gwblhau erbyn diwedd Chwefror 2019.

Wrth i ni gyflawni'r gwaith, bydd modd mynd a dod trwy'r cae ger heol Rhyd-y-Pennau o hyd.

Rydyn ni wedi rhoi cerrig i'r Cyngor i atgyfnerthu'r llwybr trwy'r cae i'w atal rhag mynd yn fwdlyd dros y gaeaf.

Ond rydyn ni'n argymell bod cerddwyr heb esgidiau cadarn, neu'r rhai sydd am ddefnyddio'r llwybr i ffermdy Rhyd-y-Blewyn, yn defnyddio'r gwyriad ar Black Oak Road, gan ddilyn yr arwyddion lleol yn ystod y cyfnod hwn.



Cronfa ddŵr Llanisien (Tachwedd 2018)

Dŵr Cymru Welsh Water

lisvaneandllanishen@dwrcymru.com
0800 052 0130 dwrcymru.com

# Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien

## Newyddlen

Tachwedd 2018

## Newyddion ecolegol

Rydyn ni'n ofalus iawn i amddiffyn y glaswelltir o amgylch y cronfeydd, ac wrth gwblhau unrhyw waith ar y safle, rydyn ni'n hydro-hadu'r ardal â hadau gwair brodorol er mwyn lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd.


Hydro-hadu gwair brodorol


Hadau gwair brodorol wedi eu hydro-hadu

Mae llawer o'r glaswelltir yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) felly mae hi'n hanfodol ein bod ni'n amddiffyn yr ardal wrth weithio.

## Cyfleusterau at y dyfodol

Wrth weithio i adfer y cronfeydd, rydyn ni'n brysur hefyd yn penderfynu pa gyfleusterau y gallwn eu cynnig yn y dyfodol.

Rydyn ni'n dal i dderbyn awgrymiadau ar gyfer cyfleusterau'r safle at y dyfodol. Os os oes syniad gennych, rhowch hi yn ein blwch pwrpasol yn Hyb Cymunedol Llanisien, neu cysylltwch â ni trwy e-bost [lisvaneandllanishen@dwrcymru.com](mailto:lisvaneandllanishen@dwrcymru.com)

Croeso hefyd i chi roi galwad i Megan neu Gwyn ar 01443 452452 gyda'ch awgrymiadau, neu gydag unrhyw gwestiynau am y gwaith ar y cronfeydd.



Hyb Cymunedol Llanisien



## Barod am y gaeaf?

Mae'r gaeaf yn gallu bod yn amser hudolus, ond mae tywydd rhewllyd yn gallu bod yn gostus hefyd. Gallwch wneud pob math o bethau i baratoi, fel lapio pibellau a thapiau tu fas i atal rhwygiadau a llifogydd. Os oes gennych bibellau neu dapiau tu fas neu mewn llofft neu garej oer, cofiwch eu lapio â phecyn lagio. Darllenwch ein cynigion a mynnwch becyn lagio yn [www.wrapupwales.com](http://www.wrapupwales.com)